University of South Wales
Prifysgol De Cymru

PRIFYSGOL DE CYMRU

Adroddiad Monitro ar y Safonau Iaith Gymraeg

Yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd rhwng 1 Awst 2019 hyd at 31 Gorffennaf 2020

1. CYFLWYNIAD

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn creu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6)). Bwriad y Safonau yw:

- darparu eglurder i sefydliadau am eu dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg
- darparu eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallent ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau Cymraeg a gwella'u hansawdd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau yng Nghymru drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ers 1 Ebrill 2018 mae gan Brifysgol De Cymru ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel a nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a ddosbarthwyd ar 29 Medi 2017. Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol.

Yn unol â gofynion y Safonau, rhaid i'r Brifysgol gynhyrchu adroddiad monitro sy'n cyfateb i'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn trafod sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r safonau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o fewn 6 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn trafod y cyfnod rhwng 1 Awst 2019 a 31 Gorffennaf 2020.

Rhaid cynnwys y materion canlynol yn yr adroddiad:

- Y modd y gwnaeth y brifysgol gydymffurfio â'r safonau yr oeddem dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredol, cadw cofnodion);
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredol, cadw cofnodion);
- Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw;
- Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi penodol a gynigwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn, a'r ganran o'r holl fynychwyr wnaeth fynychu'r fersiwn Cymraeg;
- Nifer y swyddi gwag a newydd a hysbysebwyd gyda gwahanol ofynion o ran sgiliau Cymraeg.

Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan Prifysgol De Cymru ar 31 Ionawr 2021.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ar y 17eg o Fawrth 2020, gorchmynnwyd i holl staff y Brifysgol weithio o adref lle bo'n bosib, o ganlyniad i bandemig COVID-19.

2. CYRHAEDDIADAU

Weekly informal sessions for staff and students	Darparwyd sesiynau anffurfiol wythnosol i fyfyrwyr Cymraeg ar gampws Casnewydd i ddatblygu eu hyder wrth siarad yn Gymraeg trwy gydweithio â Menter Iaith Casnewydd. O ganlyniad i bandemig COVID-19 mae'r sesiynau bellach yn cael eu cynnal ar-lein. Lansiwyd sesiwn anffurfiol wythnosol i staff sy'n siarad Cymraeg i ddod at ei gilydd; cwrdd ag aelodau o staff o bob ran o'r brifysgol; a chymdeithasu trwy MS Teams. Un o fanteision cynnal y cyfarfod ar-lein yw bod llawer o staff o wahanol gampysau yn gallu mynychu .
'Mae gen i hawl' : sesiynau codi ymwybyddiaeth o hawliau myfyrwyr	Cynhaliwyd nifer o sesiynau 'Mae gen i hawl' i fyfyrwyr a staff yn ystod mis Rhagfyr 2019 ar draws bob campws a hysbysebwyd ar-lein ar gyfryngau cymdeithasol y Brifysgol (gweler ffigwr 1). Darparwyd gwybodaeth am eu hawliau o ran safonau'r Gymraeg ac i ddysgu mwy am gyfleoedd a darpariaeth Gymraeg yn y Brifysgol.
Sesiwn atgoffa Safonau'r Gymraeg	Yn ystod y flwyddyn yr adroddir, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gloywi i reolwyr uwch ym mhob adran a chyfadran er mwyn diweddaru hwy am unrhyw ddatblygiadau o dan y Safonau Gymraeg. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i staff i adolygu eu gweithdrefnau presennol a gofyn am gyngor ar unrhyw beth yn ymwneud â'r rheoliadau'r Safonau Gymraeg.
Datblygu system cyfieithu ar y pryd ar-lein	Datblygodd y Brifysgol system gan ddefnyddio Blackboard Collaborate sy'n gweithio ochr-wrth-ochr gyda MS Teams.
Gwella cofnod sgiliau iaith staff	O ganlyniad i system AD newydd a dull newydd, manylach, o gasglu data, dim on 24% o staff a gwblhaodd eu cofnod sgiliau yn ystod cyfnod adrodd 2018-19. Blaenoriaethwyd y maes hwn gan yr Uned Gymraeg a'r Adran AD ar gyfer cyfnod adrodd 2019-20. Datblygwyd adran yn y system lle gall Cydlynwyr y Gymraeg gael mynediad at y safle SharePoint, sy'n cael ei ddiweddaru'n ddyddiol ac yn darparu

adroddiad sgiliau Cymraeg staff yn eu hadrannau. O ganlyniad, gall y cydlynwyr olrhain cyfraddau cwblhau a darparu adroddiadau amserol i reolwyr. Mae cyfraddau cwblhau wedi cynyddu o 54% ers 2018-19.

Ffigwr 1

3. LLYWODRAETHU A MONITRO

3.1 Pwyllgor Adnoddau Dynol

Mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol yn cynghori Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol De Cymru ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a'i chydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Darperir adroddiadau cyson ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac mae Is-Ysgrifennydd y Brifysgol a Phennaeth y Gymraeg yn mynychu'r cyfarfodydd hynny.

3.2 Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg

Mae gan y Brifysgol Grŵp Llywio'r Gymraeg a gadeirir gan Ysgrifennydd y Brifysgol. Mae gan y Grŵp rôl benodol i ddatblygu a gwella defnydd y Brifysgol o'r Gymraeg, yn enwedig yng nghyd-destun gweithredu Safonau'r Gymraeg a monitro cydymffurfiaeth yn erbyn y Safonau. Mae'r Grŵp yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn ac yn cynnwys uwch swyddogion a chynrychiolwyr ar draws y Brifysgol.

3.3 Cydlynwyr y Gymraeg

Mae gan bob cyfadran academaidd ac adran gorfforaethol ym Mhrifysgol De Cymru Gydlynydd y Gymraeg sy'n cynorthwyo ac yn delio gyda chwestiynau sy'n ymwneud â'r Safonau. Gallant gynghori ar faterion sy'n gysylltiedig â darpariaeth academaidd, gwasanaethau i fyfyrwyr, a sut mae delio gydag aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno cael gwasanaeth Gymraeg.

Cynhaliwyd cyfarfodydd o leiaf pob tymor yn ystod y cyfnod adrodd i drafod gweithredu, monitro a chydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Ceir cyfle i'r cydlynwyr drafod arfer dda yn eu meysydd hwy wrth weithredu'r safonau; gofyn am gyngor gan y cydlynwyr neu swyddogion yr Uned Gymraeg; a chynnig sut y gellid codi ymwybyddiaeth o'r gofynion a buddiannau'r safonau.

Mae pob cydlynydd yn darparu adroddiadau llafar ac ysgrifenedig i'r Swyddog Iaith Gymraeg, sy'n gyfrifol am weithredu'r safonau a monitro cydymffurfiaeth.

3.4 Monitro

Fel y cytunwyd gan Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydlynwyr y Gymraeg, ymgymerir â'r gwaith monitro'n fewnol gan yr Uned Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddulliau siopwr cudd (ymweliadau, galwadau ffôn, negeseuon e-bost, adolygu'r gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol) gyda'r amcan o adnabod arfer dda a'r meysydd sydd angen cefnogaeth neu hyfforddiant ychwanegol. Gwneir y gwaith hwn unwaith y flwyddyn gan yr Uned Gymraeg ac adroddir y canlyniadau a'r allbynnau i'r cydlynwyr a'r

rheolwyr a'r penaethiaid perthnasol. Gofynnir i'r adrannau gyflwyno diweddariad blynyddol i'r Uned Gymraeg ar eu cynlluniau datblygu lleol er mwyn monitro datblygiad. Y cydlynwyr sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth yn eu meysydd hwy yn y cyfamser.

Mae Adroddiad Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn darparu safbwynt annibynnol, yn seiliedig ar eu harchwiliadau nhw, er mwyn hysbysu siaradwyr Cymraeg i ba raddau mae sefydliadau yn darparu gwasanaethau iddynt, ac ansawdd y gwasanaethau hynny; gan dynnu sylw sefydliadau at enghreifftiau o arfer dda, a lle bo angen datblygu trefniadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gwella profiad y cwsmer. Gellir dod o hyd i gopi o adroddiad 2019-20 'Cau'r Bwlch' *yma.

*Pan gyhoeddwyd yr adroddiad, nid oedd gwefan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn weithredol.

4. CYDYMFFURFIO

4.1. Sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Uned Gymraeg yn cynnal cyfarfodydd tîm gyda staff ar bob lefel ym mhob adran a chyfadran ar draws y Brifysgol trwy gydol y flwyddyn, er mwyn deall eu hanghenion wrth gydymffurfio â'r safonau a darparu cymorth iddynt. Ers 17eg Mawrth 2020 mae rhan helaeth o'r staff yn gweithio o adref yn sgil pandemig COVID-19. Mae cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb wedi'u disodli gan gyfarfodydd rhithiol trwy MS Teams. Mae'r Uned Gymraeg yn cynnig sesiynau hyfforddiant rhithiol i staff wrth ateb y ffôn yn Gymraeg, neu er mwyn egluro'r broses o drefnu cyfarfodydd i fyfyrwyr, staff neu'r cyhoedd.

Mae Cynllun Gweithredu'r Safonau yn trafod sut mae Prifysgol De Cymru yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau, ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Brifysgol.

4.2 Sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi

Mae pob polisi sy'n cael ei greu neu ei ddiwygio yn dilyn ein prosesau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EIA). Mae'r ffurflen yn cynnwys adran i'r Gymraeg gael ei hystyried o ran yr effaith y gall unrhyw bolisi newydd, neu ddiwygiad ei gael ar yr iaith. Cedwir cofnod o bob ffurflen a chaiff ei hanfon at y tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'r tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn trafod yr asesiad am y Gymraeg gydag Is-ysgrifennydd y Brifysgol a Phennaeth y Gymraeg a'u cyflwyno i Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol, sy'n cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Brifysgol.

4.3 Sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu

Mae'r Brifysgol wedi datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg - gellir dod o hyd i'r polisi yma.

Mae'r holl bolisïau sy'n ymwneud â phroses recriwtio a chyflogaeth y Brifysgol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y fewnrwyd. Mae staff yn gallu nodi eu dewis iaith ar y system adnoddau dynol, iTrent, a chaiff y cofnod hwn ei wirio wrth ohebu gyda staff.

O ganlyniad i bandemig COVID-19 darperir cyfleoedd rhithiol i staff ddysgu Cymraeg ar unrhyw lefel yn rhad ac am ddim trwy weithio gyda Chanolfan Dysgu Cymraeg Morgannwg. Mae cyfleoedd hefyd ar gael i staff i siarad Cymraeg trwy ein digwyddiadau anffurfiol a gynhelir yn rheolaidd ar-lein bob pythefnos.

4.4. Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaeth, llunio polisi, gweithredol)

Ymdrinnir â chwynion am y Gymraeg a/neu gwynion a dderbynnir yn y Gymraeg neu Saesneg am unrhyw agwedd yn ymwneud â'r Safonau yn unol â pholisi cwynion y Brifysgol. Gellir dod o hyd i'n Polisi Cwynion a'r broses ar wefan y Brifysgol. Mae'r polisi wedi'i gymeradwyo gan Grŵp Llywio'r Gymraeg a chaiff ei adolygu yn unol â'r prosesau mewnol.

Dylid nodi y caiff cwynion sy'n dod o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg eu prosesu'n unol â safonau ac amserlen Swyddfa'r Comisiynydd. Caiff y broses hon ei blaenoriaethu dros ein terfynau amser arferol.

Yn ystod y cyfnod adrodd 1 Awst 2019-31 Gorffennaf 2020 derbyniwyd chwe chwyn - gweler atodiad 1.

4.5 Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Mae'n system AD yn darparu dadansoddiad manwl o sgiliau staff mewn cyd-destunau gwahanol (darllen, ysgrifennu a siarad) sy'n rhoi darlun gwell i'r Brifysgol o'r sgiliau amrywiol ar draws yr adrannau a'r cyfadrannau.

Safon 158: Nifer a % y staff academaidd sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fesul cyfadran.[1]

Cyfadran	Nifer y staff academaidd sy'n gallu addysgu yn Gymraeg	% o'r holl staff academaidd
Gwyddorau Bywyd ac Addysg	19	1.13
Diwydiannau Creadigol	18	1.07
Busnes a Chymdeithas*	12	0.72
Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth	3	0.18
Cyfanswm	**52**	**3.10**

*Lleolir darpariaeth Cymraeg i Oedolion y Brifysgol yn y Gyfadran Busnes a Chymdeithas.

Safon 158: Nifer a % y staff gweinyddol sy'n gallu siarad Cymraeg fesul adran a chyfadran. [2]

Adran a Chyfadran	Siaradwr Cymraeg (Rhugl)	Siaradwr Cymraeg (Ddim yn rhugl)	Canran fras o siaradwyr Cymraeg (o'r cyfanswm o holl staff*)
Cofrestrfa Academaidd	15	40	53%
Ystadau a Chyfleusterau	21	35	35%
Gwyddorau Bywyd ac Addysg	23	3	21%
Diwydiannau Creadigol	3	12	20%
Busnes a Chymdeithas	8	1	36%
Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth	8	17	21%
Y Gyfarwyddiaeth	4	11	62%
Adran Gyllid	3	12	38%
Llywodraethu, Sicrwydd a Chyfreithiol	6	6	92%

[1] Data a gyflwynwyd i HESA ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-20.
[2] Casglwyd y data ym mis Rhagfyr 2020.

Marchnata a Denu Myfyrwyr	17	22	56%
Gwasanaethau Myfyrwyr	7	24	43%
Datblygu Sefydliadol	9	11	49%
Ymchwil a Datblygiad Busnes	8	30	67%
Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth	11	34	52%
Gwasanaethau Dysgu	16	48	60%
PDC Rhyngwladol	2	14	62%
Cyfanswm	**161**	**320**	**43%**

* Gall bob aelod o staff gofnodi ei sgiliau iaith ar ein system Adnoddau Dynol, iTrent. Mae staff yn nodi sgiliau rhwng sero (heb unrhyw sgiliau Cymraeg), i bump, (cwbl rugl). Mae 'Siaradwr Cymraeg ddim yn rhugl' yn cyfeirio at staff sydd â sgiliau Cymraeg lefel un. Golyga hyn eu bod nhw'n medru ynganu geiriau Cymraeg, enwau llefydd, cyfarch a deall cyfarchiad syml, defnyddio geiriau Cymraeg sylfaenol a gofyn am bethau syml. Mae 78% wedi nodi eu sgiliau ar hyn o bryd ac mae'r gwaith yn parhau i godi'r niferoedd hyn er mwyn darparu darlun gwell.

4.6 Nifer a chanran y staff a fynychodd hyfforddiant Cymraeg

Ni fynychodd unrhyw un hyfforddiant Cymraeg a enwir yn yr hysbysiad cydymffurfio yn ystod y cyfnod 1 Awst 2019 - 31 Gorffennaf 2020.

4.7 Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn neu linyn gwddf 'laith Gwaith' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

Dosbarthir cortynnau gwddf 'laith gwaith' i unrhyw staff sydd wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl a gellir gofyn amdanynt drwy'r cydlynwyr neu'r Uned Gymraeg. Mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol ac mae staff wedi sôn yn anffurfiol fod y bathodynnau wedi rhoi hyder iddynt ddechrau sgyrsiau yn Gymraeg. Mae rhai aelodau o staff wedi dechrau cynnig gwasanaethau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar ôl magu hyder a datblygu'u sgiliau.

Mae'r galw am gortynnau gwddf i ddysgwyr wedi cynyddu yn ddiweddar. Mae staff, sydd heb yr hyder i wisgo cortyn Iaith Gwaith eto, wedi nodi eu bod yn fwy cyfforddus yn gwisgo bathodyn neu gortyn 'Dysgu Cymraeg'. Mae'r cortynnau gwddf 'Dysgu Cymraeg' wedi'u hariannu gan yr Uned Gymraeg, mewn cydweithrediad â Dysgu Cymraeg Morgannwg.

Dosbarthwyd 0 bathodyn a 3 cortyn gwddf yn ystod y cyfnod a adroddir.

4.8 Hyfforddiant Iaith

Mae'r Brifysgol yn annog staff i ddysgu Cymraeg a darperir y cyrsiau gan Ganolfan Dysgu Cymraeg Morgannwg a'i leolir ar gampws Trefforest.

Cwrs	**Nifer y staff**
Mynediad lefel 1	32
Mynediad lefel 1 & 2	7
Mynediad lefel 2	22
Sylfaen 1	11
Sylfaen 1 & 2	4
Canolradd 1	2
Canolradd 1 & 2	1
Canolradd 2	6
Uwch 2	1
Uwch 3	1
Cyfanswm	**87**

4.9 Swyddi newydd a gwag

Yn ystod 1 Awst 2019 - 31 Gorffennaf 2020 hysbysebwyd 211 o swyddi gwag ac ni chafodd unrhyw swyddi newydd eu creu. Hysbysebwyd y swyddi yn ôl y categorïau canlynol:

Hysbyseb Swydd	**Swyddi newydd**	**Swyddi Gwag**	**Cyfanswm**
Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	0	10	10
Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	0	78	78
Sgiliau Cymraeg ddim yn angenrheidiol	0	123	123
Angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir i'r swydd	0	0	0
Cyfanswm			**211**

5. GWYBODAETH BELLACH

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr adroddiad monitro neu am unrhyw agwedd ar gydymffurfiaeth Prifysgol De Cymru gyda Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â:

Yr Uned Gymraeg
Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol,
Prifysgol De Cymru
Campws Pontypridd
CF37 1DL
cymraeg@decymru.ac.uk

Atodiad 1: Cwynion

Dyddiad Derbyn	Disgrifiad o'r Gŵyn	Dosbarth y Safon	Dyddiad Datryswyd
13.08.2019	Gwall Cymraeg ar arwydd ffordd.	Cyflenwi gwasanaethau	14.08.2019
03.09.2019	Gwall Cymraeg ar arwydd lifft.	Cyflenwi gwasanaethau	09.09.2019
01.10.2019	Gwall Cymraeg ar arwydd mewn dosbarth.	Cyflenwi gwasanaethau	07.10.2019
16.10.2019	Arwydd uniaith Saesneg mewn toiledau ar gampws Caerdydd.	Cyflenwi gwasanaethau	17.10.2019
04.11 2019	Gwall Cymraeg ar arwydd tu fas y Llyfrgell ar gampws Trefforest.	Cyflenwi gwasanaethau	04.11.2019
30.01.2020	Arwydd ar ddrws ystafell dosbarth.	Cyflenwi gwasanaethau	03.02.2020